# Fframwaith 7 Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru Hawliau Craidd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn cynnwys 13 Hawliau Craidd ac 11 Dangosydd Ansawdd sy'n diffinio'r hyn a ddisgwylir gan wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Hawliau Craidd yn amlinellu'r lleiafswm a ddisgwylir gan bob llyfrgell gyhoeddus yng Nghymru.

## HCSLICC 1

Mae gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn rhad ac am ddim i ymuno â nhw, ac yn agored i bawb.

## HCSLICC 2

Mae gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwysedig wrth law i helpu cwsmeriaid.

## HCSLICC 3

Mae gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau o safon uchel mewn sawl fformat i gefnogi dysgu a cheisio gwybodaeth gydol oes, darllen er mwynhad, cyfranogiad cymunedol, profiadau diwylliannol, hamdden ac iechyd a lles.

## HCSLICC 4

Mae gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth sy'n hygyrch i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion penodol.

## HCSLICC 5

Mae gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn darparu gofod ffisegol diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas dan ofal staff.

## HCSLICC 6

Mae gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn benthyca llyfrau am ddim ac yn cynnig mynediad am ddim i wybodaeth, gan gynnwys adnoddau ar-lein (ar gael o bell 24 awr y dydd) i bobl sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yn yr ardal.

## WPLSCE 7

Mae gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn darparu defnydd di-dâl o'r Rhyngrwyd gan gynnwys Wi-Fi, ynghyd â mynediad at offer digidol i bobl sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yn yr ardal.

## HCSLICC 8

Mae gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn darparu mynediad i gwsmeriaid at wasanaethau, gweithgareddau diwylliannol ac adnoddau o ansawdd uchel yn y Gymraeg.

## HCSLICC 9

Mae gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth i rannu catalogau a hwyluso mynediad at adnoddau holl lyfrgelloedd cyhoeddus Cymru.

## HCSLICC 10

Mae gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, gan alluogi rhagor o bobl i elwa o'r gwasanaethau hynny.

## HCSLICC 11

Mae gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn ymgynghori â chwsmeriaid yn rheolaidd i gasglu eu barn am y gwasanaeth a gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.

## HCSLICC 12

Mae gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn darparu mynediad at strategaeth, polisïau, amcanion a gweledigaeth eu gwasanaeth llyfrgell, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel sy'n briodol i'r gymuned.

## HCSLICC 13

Mae gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol yn darparu cymorth i helpu i wella sgiliau a hyder digidol cwsmeriaid.

OGL © Hawlfraint y Goron 2025 WG50695